WWF

CYLCHLYTHYR

EBRILL 2011



Cynaliadwyedd | Cadwraeth | Newid Hinsawdd

# Cylchlythyr Arbennig WWF Cymru ar gyfer yr Etholiad

© WWF Cymru/Peter Williams

# CYFLWYNIAD

Gydag etholiad y Cynulliad yn prysur nesáu rydyn ni angen llywodraeth a fydd yn gweithio ar gyfer Cymru well yn y dyfodol.

## GAN BENNAETH WWF CYMRU
## ANNE MEIKLE



Rydyn ni angen Llywodraeth a all gynnal gweledigaeth hirdymor, gan sicrhau bod y newidiadau mawr sydd eu hangen i'n seilwaith yn dechrau digwydd yn awr. Rydyn ni angen ymrwymiad i Gymru wirioneddol gynaliadwy, sef Cymru Un Blaned, lle mae pobl Cymru'n byw bywydau hapus, iach a llewyrchus o fewn eu cyfran deg o adnoddau'r Ddaear.

Ond allwn ni ddim cyflawni hyn heb eich cymorth chi. Rydyn ni angen i chi, bobl Cymru, ddangos i wleidyddion eich bod chi'n malio am ein hamgylchedd trwy ddefnyddio'ch pleidlais yn effeithiol. I'ch helpu i wneud hyn rydyn ni wedi cynnal cyfweliad ag arweinydd pob un o'r pedair prif blaid i gael gwybod sut mae pob un yn bwriadu gwarchod ein planed. Fe dreulion ni'r diwrnod gyda nhw yn gofyn cwestiynau iddyn nhw am feysydd allweddol gan gynnwys sut maen nhw'n bwriadu mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, sut y byddan nhw'n sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd popeth a wnân nhw ac a fyddan nhw'n gwarchod ein môr a'n glannau gwerthfawr gyda'u rhywogaethau a' u cynefinoedd agored i niwed. Gofynnwn i chi ddefnyddio'r wybodaeth yn y cylchlythyr hwn i farnu pwy yn eich barn chi fydd yn gwarchod a diogelu ein hamgylchedd orau. Gallwch gael gwybod mwy trwy fynd i wefan WWF Cymru sef wwf.org.uk/cymru.

Gofynnwn i chi ddefnyddio'ch pleidlais a'ch llais i sicrhau y caiff ein planed ei gwarchod i'r cenedlaethau i ddod.

Llawer o ddiolch



Anne Meikle, pennaeth WWF Cymru



© NASA

# BETH MAE WWF CYMRU YN GOFYN AMDANO

Yma yng Nghymru, mae WWF Cymru yn gweithio'n galed ers 11 mlynedd, ers datganoli, i sicrhau bod materion megis y newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni a gwarchod moroedd Cymru ar frig yr agendâu gwleidyddol a chyfryngol. Dyma'r heriau yr ydym yn parhau i fynd i'r afael â nhw'n ddigyfaddawd -

## Y NEWID YN YR HINSAWDD

Mae WWF wedi lobïo Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wahanol faterion sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, gan herio'r llywodraeth i fanteisio ar ffynonellau rhagorol Cymru o ynni adnewyddadwy a lleihau maint y nwyon tŷ gwydr y mae ein diwydiannau, trafnidiaeth, amaethyddiaeth a chartrefi'n eu hallyrru.

Rydyn ni wedi ymuno â sefydliadau dylanwadol eraill o'r gymdeithas sifil i ffurfio Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru a, gyda'n gilydd, rydyn ni wedi helpu i gael ymrwymiadau oddi wrth bob plaid wleidyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i weithio i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 40% erbyn 2020, o'u cymharu â'r allyriadau yn 1990. Hefyd, mae ein gwaith lobïo ar yr angen am darged blynyddol i leihau nwyon tŷ gwydr wedi arwain at ymrwymiad yng Nghytundeb Cymru'n Un rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru i'w lleihau 3% y flwyddyn o 2011 ymlaen.

**TARGED LLEIHAU ALLYRIADAU O**
**40%**
**YN IS NA LEFELAU 1990, ERBYN 2020**

Mae'r targedau hyn ymhlith y rhai mwyaf uchelgeisiol yn y byd, ac i helpu i'w cyrraedd rydyn ni'n pwyso ar Lywodraeth newydd Cynulliad Cymru i gynnal a gwella ei hymrwymiadau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Dyma rai o'r gweithredoedd rydyn ni'n dadlau drostyn nhw:


- Cyflenwi cynllun effeithlonrwydd ynni ym maes tai ar draws y wlad i leihau allyriadau carbon o'r sector tai o leiaf 40% erbyn 2020.
- Cynorthwyo â sefydlu sector cyflenwad trydan wedi'i ddatgarboneiddio erbyn 2025, gan sicrhau y caiff o leiaf 70% o hyn ei gyflenwi erbyn 2020.

## CYMRU UN BLANED

Mae byw o fewn terfynau amgylcheddol yn sylfaenol angenrheidiol er mwyn cynnal bywyd ar y Ddaear ac yn ofyniad hanfodol ar gyfer datblygu cynaliadwy. I weddnewid economi Cymru tuag at Wlad Un Blaned bydd angen i Lywodraeth newydd Cynulliad Cymru sicrhau y defnyddir ynni ac adnoddau'n llawer mwy effeithlon. Ym mis Hydref 2007, cyhoeddodd WWF adroddiad o'r enw 'Cymru Un Blaned – Llwybrau tuag at ddyfodol cynaliadwy' a ddaeth i'r casgliad bod yn rhaid i Gymru leihau ei heffaith ar y blaned 80% erbyn 2050, gan gynnwys lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr 80%.

**TORIAD LLEIAFSWM O**
**80%**
**YN ALLYRIADAU NWYON TY GWYDR ERBYN 2050**

Wedyn, ym mis Tachwedd 2008, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Chynllun Datblygu Cynaliadwy newydd, o'r enw 'Cymru'n Un, Cenedl Un Blaned' a gosododd nod i Gymru fod yn genedl un blaned. Mae'r cynllun yn galw am benderfynu cydgysylltiedig ar bob lefel o'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus i sicrhau datblygu cynaliadwy. Diffiniad y llywodraeth o hyn yw gwella ansawdd bywyd a lles pobl ac ar yr un pryd defnyddio adnoddau amgylcheddol mewn ffordd gynaliadwy, er mwyn i ddatblygu yn awr beidio â pheryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol.






O ganlyniad i hyn mae WWF Cymru yn galw ar y llywodraeth newydd i:

- Gynnal yr ymrwymiad presennol i fod yn Genedl Un Blaned erbyn 2050 ac ymrwymo i sefydlogi ac wedyn lleihau ôl troed ecolegol Cymru 3% bob blwyddyn;
- Asesu effaith yr holl bolisïau, rhaglenni a gwariant cyhoeddus ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ôl troed ecolegol/carbon Cymru ac ailgyfeirio gwariant cyhoeddus i ffwrdd o leoedd y mae'n rhoi cymhorthdal i agweddau ar yr economi sy'n creu llawer o garbon ac yn defnyddio adnoddau mewn ffordd aneffeithlon, tuag at feysydd sy'n hanfodol i allu Cymru i ffynnu wrth gael ei gweddnewid i economi byd gwyrdd.
- Fframweithiau rheoli perfformiad y sector cyhoeddus i roi cyfrif am leihau'r ôl troed a charbon trwy gyflenwi targedau gorfodol cysylltiedig.




© WWF Cymru

# MOROL




Mae deng mlynedd o ymgyrchu wedi dwyn ffrwyth o'r diwedd wrth i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir y Deyrnas Unedig gyrraedd y llyfrau statud ar 12fed Tachwedd 2009. Deddf hanesyddol iawn yw hon a allai fod â chanlyniadau pwysig i'r ffordd y caiff ein moroedd eu rheoli a'r ffordd y caiff bywyd gwyllt morol ei warchod. Mae Deddf y Deyrnas Unedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, am y tro cyntaf, i ddiogelu a gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd morol a gallai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddyfodol moroedd Cymru.

Er ein bod ni wrth ein bodd bod gennym Ddeddf y Môr yn y Deyrnas Unedig bellach, dim ond y cam cyntaf yw hwn mewn gwirionedd yn y broses o sicrhau moroedd glân, iach a bioamrywiol. Mae Deddf y Deyrnas Unedig yn dod â phwerau newydd pwysig i Gymru, ond mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gymryd camau i sicrhau y caiff y Ddeddf ei gweithredu'n gyflym ac yn effeithiol yng Nghymru, neu bydd ein moroedd yn parhau i ddioddef.

Mae WWF Cymru eisiau sicrhau:

- Y caiff cynlluniau morol eu cynhyrchu erbyn 2015 i ymdrin â'r holl weithgareddau a sicrhau y defnyddir adnoddau mewn ffordd gynaliadwy ledled moroedd Cymru, ac y cânt eu cydgysylltu ar draws ffiniau cenedlaethol a gweinyddol ar y tir a'r môr.
- Y bydd digon o adnoddau i weithredu Deddf y Môr yng Nghymru'n gyflym ac yn effeithiol.
- Y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydgysylltu â gweinyddiaethau eraill y Deyrnas Unedig i sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu'r Ddeddf.



# ARWEINWYR Y PLEIDIAU'N DWEUD EU DWEUD

Gofynnodd WWF Cymru i arweinydd pob un o'r pedair plaid yng Nghymru, sef arweinydd Llafur, Carwyn Jones; arweinydd Plaid Cymru Ieuan Wyn Jones; arweinydd y Ceidwadwyr, Nick Bourne; ac arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Kirsty Williams, y cwestiynau canlynol am ein prif feysydd gwaith.

## CWESTIWN 1 Y NEWID YN YR HINSAWDD

*"Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau bod allyriadau carbon o'r sector tai yn cael eu lleihau o leiaf 40% erbyn 2020?"*



### YMATEB CARWYN JONES:


"Rydyn ni eisiau bod yn uchelgeisiol ac wrth gwrs un o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud yw cefnogi prosiectau i inswleiddio tai a'u gwneud yn fwy ynni effeithlon hyd yn oed pan mae'r tai hynny'n eithaf hen. Rydyn ni'n gwybod bod gennyn ni lawer o dai yng Nghymru a godwyd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, o un haen o frics, ac roedden ni eisiau gwneud yn siŵr trwy gynllun fel Arbed y gallem ni inswleiddio'r tai hynny mewn ffordd nad oedd efallai'n dechnegol bosibl yn y gorffennol. Hefyd wrth gwrs gallwn ni ddefnyddio'r Rheoliadau Adeiladu o'r flwyddyn nesaf ymlaen i wneud yn siŵr ein bod ni'n codi adeiladau dim carbon a thrwy foderneiddio'r stoc tai hŷn a gwneud yn siŵr mai rhai dim carbon yw'r tai newydd, yna wrth gwrs gallwn geisio lleihau ein hallyriadau trwy'r sector tai."



### YMATEB IEUAN WYN JONES:

"Dwi'n meddwl ein bod ni wedi sefydlu mentrau yma ac wrth gwrs maen nhw'n ymdrin â dau beth yn bennaf. Un yw gwneud cartrefi sy'n bodoli eisoes yn ynni-effeithlon ac mae Cynllun Arbed, y gwn i fod fy nghydweithwraig Jocelyn Davies wedi'i gyhoeddi, yn enghraifft ardderchog yn fy marn i a dwi'n meddwl bod yna fentrau yn y Cymoedd hefyd lle mae'n amlwg bod llawer o'r tai wedi cael eu codi yn ystod y Chwyldro Diwydiannol ac felly mae angen i ni eu gwneud yn llawer mwy ynni-effeithlon, 'chawson nhw mo'u hadeiladu gyda hynny mewn golwg ond mae'n amlwg bod angen i ni eu 'hôl-ffitio' i wneud yn siŵr y bydd hynny'n digwydd ac rydyn ni wedi buddsoddi'n fawr yn hynny. Nid dim ond ynghylch y materion amgylcheddol mae hyn, er mai hynny yw un o'r prif fuddion, rydyn ni hefyd yn ei wneud fel rhan o strategaeth wrthdlodi oherwydd mae'n glir bod yna bobl sy'n talu prisiau uchel am eu hynni ac os gallwn ni leihau eu costau ynni yna mae'n amlwg ein bod ni'n cyrraedd ein dau darged."

"Mewn perthynas â thai newydd, wrth gwrs pan fo gennyn ni gyfrifoldeb am reoliadau adeiladu yna gallwn ni ei wneud yn rhan o'n pecyn o fesurau, os mynnwch chi, bod tai wedi gorfod bodloni safonau amgylcheddol mwy llym pan gânt eu hadeiladu yn y lle cyntaf. A dwi'n meddwl bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod ni ar y blaen ac mae'n amlwg bod angen i ni ddeall yr effaith y bydd hynny'n ei chael ar adeiladu tai."





## YMATEB NICK BOURNE:

"Bydd inswleiddio waliau ceudod ac inswleiddio llofftydd yn chwarae rhan allweddol. Y peth arall rydyn ni'n frwd yn ei gylch gyda datganoli rheoliadau adeiladu yw gwneud yn siŵr eu bod yn ecogyfeillgar fel mae angen iddyn nhw fod er mwyn sicrhau y byddwn ni'n creu adeiladau newydd sy'n garbon niwtral, dwi'n meddwl bod gan hynny ran fawr i'w chwarae. Ond hefyd fel dwi'n dweud bydd gwneud yn siŵr eu bod nhw wedi'u hinswleiddio'n iawn yn helpu i sicrhau bod tai pobl hŷn yn cael eu gwresogi'n iawn yn y gaeaf. Felly mae yna lawer iawn y gallwn ni ei wneud yno ond hefyd fel dwi'n dweud rydyn ni eisiau hybu micro-gynhyrchu, paneli solar ar dai newydd, llawer o bethau llawn dychymyg mae angen i ni eu gwneud. Dwi eisiau i Gymru fod ar flaen y gad wrth ymdrin â'r materion hyn, nid gwlad sydd ar ei hôl hi, a dyna beth rydyn ni'n pwyso ar y Llywodraeth i'w wneud er mwyn i ni fod yn arweinydd byd ar y pethau hyn, mae gennyn ni dalent wych ac mae angen i ni fanteisio ar hynny."



## YMATEB KIRSTY WILLIAMS:

"Mae honno'n her go iawn ond mae angen mynd i'r afael â hi am ddau reswm. Un yw oherwydd cyfraniad tai at allyriadau carbon ond hefyd oherwydd cost gynyddol ynni a bod llawer iawn, iawn o bobl yn cael eu gwthio i dlodi tanwydd o'r herwydd. Felly dyna pam mae'n hanfodol gwneud rhywbeth yn ei gylch. Yr hyn yr hoffen ni ei weld yw dod â holl feysydd a llinynnau'r gwahanol sefydliadau a pholisïau sydd gan y llywodraeth bresennol ynghyd mewn siop un stop a buddsoddi'r arian hwnnw mewn gweithredu go iawn yng nghartrefi pobl. Felly rhoi i bobl y cyfle i gael grantiau i allu inswleiddio eu cartrefi a gosod dyfeisiau ynni effeithlon a dyna pam rydyn ni'n meddwl y gallwn weld y toriadau hynny."



# CWESTIWN 2 GYMRU UN BLANED

*"Fydd eich plaid chi'n ymrwymo i weddnewid Cymru yn wlad sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol ac sy'n defnyddio gwerth 'Un Blaned' o adnoddau'n unig, a sut fyddwch chi'n gwreiddio'r nod hwn yn y sector cyhoeddus?"*



## YMATEB CARWYN JONES:

"Yn sicr, fel dyn fu'n Weinidog yr Amgylchedd am bedair blynedd fe wn i fod yn rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n gwreiddio cynaliadwyedd, nid yn unig mewn un adran o'r llywodraeth ond ar draws y llywodraeth. Allwn ni ddim parhau i fyw fel pe baen ni'n defnyddio gwerth tair planed o adnoddau fel rydyn ni wedi bod yn gwneud yng Nghymru, mae'n rhaid i ni leihau ein defnyddiaeth yn nhermau cynaliadwyedd yn y dyfodol. Un ffordd o wneud hynny wrth gwrs yw parhau i ddatblygu'r siarter datblygu cynaliadwyedd a pharhau i brif ffrydio cynaliadwyedd ym mhob rhan o'r llywodraeth, mae hynny'n rhywbeth rwy'n awyddus iawn, iawn i ni barhau i'w wneud yn gryf iawn."





Plaid

## YMATEB IEUAN WYN JONES:

"Ydyn, rydyn ni eisiau i Gymru fod yn geffyl blaen os mynnwch chi ymysg y cenhedloedd sy'n symud tuag at gynaliadwyedd, mae gennyn ni ein hymrwymiad ein hunain wedi'i osod yn y ddeddfwriaeth, dwi'n meddwl un o'r ychydig iawn o ddeddfwriaethau sydd â datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei pholisïau. Mae gennyn ni hefyd ein Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd ac ynddo rydyn ni'n gallu dod i mewn â'r holl rannau o'r llywodraeth sydd angen wynebu her lleihau'r allyriadau fel, yn amlwg, amaethyddiaeth, trafnidiaeth, economi mewn iechyd, mewn addysg. Mae angen i'r holl feysydd hynny ddod ynghyd. A dwi'n meddwl mai trwy ddangos ymrwymiad bod y llywodraethau'n fodlon cydweithio yn yr holl feysydd hyn y gallwn gyrraedd y targedau hynny yn hytrach na rhoi targed i bob adran, gallen nhw weithio ar eu pen eu hunain. A dwi'n meddwl bod angen i bob adran wedyn ddangos i'r adrannau eraill y ffordd orau i gyflawni'r pethau hyn."



Ceidwadwyr Cymreig | Welsh Conservatives

## YMATEB NICK BOURNE:


"Yn gyntaf oll ga' i longyfarch WWF ar yr ymgyrch wych a redodd ar Un Blaned. Dwi'n meddwl ei bod yn llawn dychymyg a bod angen i ni ddod ag e i lawr i'r lefel honno er mwyn i bobl ei ddeall; i bobl fel fi ei ddeall. Fel dwi'n dweud mae yna rywbeth y gallwn ni i gyd ei wneud tuag at hynny a dwi eisiau sicrhau bod hyn yn flaenllaw yn ein maniffesto. Pan rydyn ni'n lansio ein polisïau amgylcheddol, rhai o'r rhai allweddol fel wnaethon ni gwpl o wythnosau'n ôl, dywedais mai dyma yw hanfod yr hyn rydyn ni angen ei wneud, nid mater o ddogma yw e, nid mater o wleidyddiaeth pleidiau, mewn ffordd mae gennyn ni i gyd fuddiant cyffredin mewn gwneud hyn. Gallwn, gallwn ni sicrhau bod y sector cyhoeddus yn chwarae ei ran ac mae angen i ni wneud hynny gydag adeiladau newydd, trwy osod esiampl. Ond wrth gwrs dyw e ddim yn gyfyngedig i'r sector cyhoeddus, mae angen i ni sicrhau bod y sector preifat yn gwneud hyn hefyd a bod unigolion yn ei wneud yn eu bywydau bob dydd. Ydi, mae'n mynd i fod yn flaenllaw yn ein maniffesto, 'does dim byd pwysicach na sicrhau parhad y blaned lle rydyn ni i gyd yn byw, mae gennyn ni fuddiant cyffredin ynddi."



Welsh Liberal Democrats
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

## YMATEB KIRSTY WILLIAMS:

"Dwi'n meddwl ei fod yn rheidrwydd gwleidyddol i ni ymrwymo i Gymru sy'n byw mewn ffordd fwy cynaliadwy a sicrhau bod holl elfennau'r sector cyhoeddus yn cyfrannu at hynny. Felly er enghraifft rydyn ni'n cymryd y penderfyniad i beidio â rhoi cymhorthdal i gyswllt awyr o Ynys Môn i Gaerdydd oherwydd yr allyriadau o'r cyswllt trafnidiaeth penodol hwnnw, hoffen ni weld yr arian hwnnw'n cael ei fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus yn lle hynny. Ac mae'n fater o roi prawf ar ein holl benderfyniadau ynglŷn â gwario, a ydyn nhw'n cyfrannu neu'n ein helpu i gyrraedd ein nodau yn nhermau cynaliadwyedd ac fe fydd. Hoffwn weld yr holl weinidogion yn cael targedau ar gyfer eu hadrannau, yn cael eu monitro ar y targedau penodol hynny, a hefyd pwyslais newydd ar lywodraeth newydd oherwydd mae llywodraeth leol yn cyflenwi ystod eang o wasanaethau ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond eto i gyd 'does dim cyfrifoldebau penodol arnyn nhw i wneud eu rhan i gwtogi allyriadau."





© SCC Cymru



## CWESTIWN 3 YR AMGYLCHEDD MOROL

*"Fydd eich plaid chi'n ymrwymo i wella'r ffordd y mae bioamrywiaeth forol Cymru'n cael ei diogelu, yng ngoleuni'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng hyn a manteisio ar ynni gwyrdd o foroedd Cymru?"*

### YMATEB CARWYN JONES:



"Un tro es i gyda WWF ar gwch allan i ynys ar y môr Celtaidd ac ar y ffordd gwelson ni forloi, llamhidyddion, dolffiniaid, morgwn gleision, morfilod pigfain, a hyn i gyd ger glannau Cymru, felly dydi llawer o'n pobl ddim yn sylweddoli beth sydd ar eu rhiniog, bron. Beth rydyn ni eisiau ei wneud yw sicrhau bod gennyn ni drefniadau diogelu bywyd gwyllt morol, ac ar yr un pryd wrth gwrs bod gennyn ni'r gallu i orfodi'r rheolau rydyn ni'n eu creu. Ar hyn o bryd yr hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud yw sicrhau ein bod ni'n darparu diogelu a gorfodi ar yr un pryd."

### YMATEB IEUAN WYN JONES:



"Ydyn, rydyn ninnau hefyd yn meddwl bod hyn yn bwysig eithriadol yn nhermau bioamrywiaeth. Ac rydyn ni hefyd eisiau sicrhau bod rhywfaint o'r buddsoddiad y bydd efallai angen i ni ei wneud wrth harneisio pŵer y gwynt a'r tonnau'n cydnabod unrhyw effaith bosibl y gall ei chael ar fioamrywiaeth. Mae yna enillion mawr i'w cael trwy fuddsoddi mewn ynni o'r gwynt a'r tonnau oherwydd rydyn ni'n credu bod hwn yn ddewis masnachol realistig pan mae'r dechnoleg wedi cael ei datblygu i greu ynni. Ond rydyn ni hefyd yn credu y bydd diogelu



bioamrywiaeth yn ein hamgylchedd morol yn un o'n hamcanion allweddol. Rydyn ni hefyd yn cydnabod wrth gwrs fod twristiaeth yn bwysig i Gymru ac rydyn ni hefyd eisiau sicrhau bod y cydbwysedd iawn gennyn ni rhwng sicrhau y gall pobl fwynhau'r amgylchedd yn ogystal â gwarchod os mynnwch chi rhai o'r rhywogaethau gwerthfawr sydd gennyn ni yn ein môr. Dwi'n cydnabod yn llwyr fod hwn yn gydbwysedd y mae angen i unrhyw lywodraeth ei gloriannu'n iawn, ond dwi'n argyhoeddedig y byddwn, gyda'r math o bolisïau y byddwn yn eu cynnig yn yr etholiad, yn rhoi blaenoriaeth i'r angen i ddiogelu bioamrywiaeth."

## YMATEB NICK BOURNE:

"Oes, wrth gwrs bod yna gydbwysedd i'w gael yma ac yn sicr rydyn ni wedi codi hyn gyda'r Gweinidog. Mae Deddf 2009 yn golygu bod gennyn ni ran i'w chwarae a'r parthau economaidd cyfyngol y gellir eu creu rydyn ni eu hangen i sicrhau ein bod ni'n diogelu bioamrywiaeth yn y moroedd, ein bod ni'n gwneud y pethau mae angen i ni eu gwneud i frwydro yn erbyn llygru'r moroedd. Ar yr un pryd dwi'n awyddus iawn fel dwi wedi dweud i sicrhau ein bod ni'n mynd ati â'n holl egni i gael ynni llanwol, cael pob modd posibl ac yn sicr mae hynny'n golygu ynni llanwol a hydro. Dwi'n frwdfrydig iawn, iawn o blaid y lagynau hynny i sicrhau eu bod nhw'n cyfrannu hefyd. Felly cael y cydbwysedd yn iawn wrth gwrs ond sicrhau bod Cymru'n chwarae ei rhan wrth wneud hynny, mae hyn yn sicr yn allweddol i'n daliadau ni fel plaid wleidyddol."

## YMATEB KIRSTY WILLIAMS:



"Byddem, fe fydden ni. Rydyn ni'n gweld o'r problemau ynghylch y cynigion am forglawdd ar afon Hafren, bod y cynlluniau mawr oedd gan y llywodraeth yn ddadleuol iawn ac y gallai fod wedi achosi colli llawer o fioamrywiaeth. Wnaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, gan gydweithio â chydweithwyr ar ochr arall afon Hafren, gynnig cynllun llai a mwy cost-effeithiol sef Morglawdd Shoots a fyddai wedi bod yn llai niweidiol i'r amgylchedd. Mae gennyn ni hanes o lwyddo, er enghraifft ymgyrchu yng Ngheredigion yn erbyn treillio ym Mae Ceredigion. Dwi'n meddwl ein bod ni wedi dangos yn y gorffennol ein pryderon am fioamrywiaeth forol a byddwn yn ceisio defnyddio'r pwerau a chyfrifoldebau newydd sydd gan Gymru i weld rhagor o welliannau i'n bioamrywiaeth forol."

# CYMRYD RHAN HAWL I HOLI AR YR HINSAWDD

Mae WWF Cymru yn aelod o gynghrair Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru ac yn y cyfnod cyn etholiad Cynulliad Cymru mae wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd etholiadol, sy'n rhoi cyfle i chi ofyn i'r ymgeiswyr beth yw eu barn.

Rydyn ni'n credu bod angen i bob plaid wleidyddol yng Nghymru weithredu i dorri allyriadau carbon ac atal prisiau cynyddol ynni a thanwydd rhag gwthio pobl i dlodi.

## TORRI CARBON A CHREU SWYDDI:

Holwch y panel a lleisiwch eich barn ar y ffordd rydych chi'n meddwl y gall Llywodraeth nesaf Cynulliad Cymru wneud mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn un o'i phrif flaenoriaethau.

**Nos Wener, 8 Ebrill, 7.30 – 9.30pm**
**Canolfan Hamdden Llanisien**

**Cadeirydd: Anne Meikle,**
**Pennaeth WWF Cymru**
Ben Foday, Plaid Cymru
Julie Morgan, Llafur
Lyn Hudson, Ceidwadwyr
Matt Smith, Democratiaid Rhyddfrydol

**Nos Fercher 13 Ebrill 6-8pm**
**Oriel Ynys Môn, Llangefni**

Ieuan Wyn Jones, Plaid Cymru
Paul Williams, Ceidwadwyr
Ann Williams, Democratiaid Rhyddfrydol
Ymgeisydd cynrhychiolydd o'r blaid Lafur

$CO_2$

**Nos Lun, 18 Ebrill, 7.30pm**
**Y Guildhall, Aberhonddu**

**Cadeirydd: Jeff Williams,**
**Cymorth Cristnogol**
Simon Thomas, Plaid Cymru
Chris Davies, Ceidwadwyr
Kirsty WIlliams, Democratiad Rhyddfrydol
Ymgeisydd cynrhychiolydd o'r blaid Lafur

Mae ymchwil newydd gan Ysgol Fusnes Caerdydd yn dweud y gall Cymru fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn ddigyfaddawd gyda datrysiadau polisi fforddiadwy sy'n torri allyriadau carbon; hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a rhoi hwb i gyflogaeth trwy greu 20,000 o swyddi newydd.

Gallwch ddarllen yr adroddiad yma – www.stopclimatechaoscymru.org

Hefyd fe'ch gwahoddir i **anfon cwestiynau ymlaen llaw at Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru** ar info@stopclimatechaoscymru.org neu ffonio Ruth Bates, WWF Cymru ar 02920 450 612

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.stopclimatechaoscymru.org

Mae Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru yn gynghrair o 14 sefydliad dylanwadol yng Nghymru sy'n gweithio i ysgogi pryder y cyhoedd a'r gweithredu angenrheidiol gan wleidyddion, er mwyn atal anhrefn hinsawdd.



WWF Cymru
Tŷ Baltic
Sgwâr Mownt Stuart
Bae Caerdydd
CF10 5FH
Ff: 029 2045 4970
E: cymru@wwf.org.uk
W: wwf.org.uk/cymru

# WWF Cymru mewn rhifau



**2000**

mae WWF Cymru yn cael ei sefydlu ac yn dechrau gweithredu yng Nghymru

Rhaid lleihau ôl troed Cymru

**75%**

erbyn 2050

Lleihau allyriadau o

**40%**

erbyn 2020

**10 MLYNEDD**

o ymgyrchu WWF yn arwain at Ddeddf Morol newydd sydd yn amddiffyn moroedd Cymru a'r DU

WWF

**Pam ein bod ni yma.**

Rydym ni'n creu atebion i'r heriau cadwraethol mwyaf difrifol y mae ein planed yn eu hwynebu, gan helpu pobl a natur i ffynnu.

wwf.org.uk

WWF-UK elusen gofrestredig rhif 1081247 a chofrestredig yn yr Alban rhif SC039593. Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif 4016725 ©1986 symbol y Panda a ®"WWF" Nod Masnach Cofrestredig gan WWF - World Wide Fund for Nature (World Wildlife Fund gynt), WWF-UK, Panda House, Weyside Park, Godalming, Surrey, GU7 1XR, t: +44 (0)1483 426333, e: cymru@wwf.org.uk, wwf.org.uk/cymru